Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 22 Hydref 2011 yn Llanidloes

2011.33 Addoli Agoriadol a Chroeso

Mae adran 23.11 *Quaker faith and practice* wedi'i darllen yn ystod ein haddoli agoriadol. Mae'n bleser cael croesawu 28 o Gyfeillion yma heddiw, fel a restrir ar y daflen bresenoldeb. Rydym hefyd yn croesawu Karen Richter. Mae'r Cyfeillion canlynol wedi'u penodi gan eu cyfarfodydd ardal i fod yn bresennol:

Gogledd Cymru: Gerald Craddock
Canolbarth Cymru: Gethin Evans
Gororau'r De: David Binney, Kate Binney

Mae Lynn Moseley wedi cytuno i roi adroddiad i Gyfarfod Ardal De Cymru.

Penodwyd Dave Butler a Gwen Prince yn Henaduriaid ar gyfer y cyfarfod hwn.

2011.34 *Calon* a *The Friend*

Mae Catherine James wedi cytuno i ysgrifennu adroddiad ar y cyfarfod hwn i *The Friend* ac i adrodd i *Calon*.

2011.35 'Cyfeillion o dan Feddiannaeth – Straeon o Balesteina'

Mae Helen Lewis a John Butler wedi ymweld â Phalesteina nifer o weithiau. Roedd yr ymweliad diweddaraf ym mis Medi gyda grŵp eciwmenaidd. Mae delweddau wedi dangos i ni'r gwrthgyferbyniad rhwng un o Dai Cwrdd tangnefeddus y Crynwyr, ymddygiad ymosodol y trefedigaethwyr arfog a'r ffordd y mae'r Palesteiniaid yn cael eu cau allan yn eu gwlad eu hunain.

Rydym wedi clywed am yr aflonyddu gan fyddin Israel a'r trefedigaethwyr Israelaidd, a'r ffordd y mae economi amaethyddol Palesteina'n cael ei difetha. Hefyd rydym wedi clywed am grwpiau Israelaidd yn gweithio i gynorthwyo'r Palesteiniaid wrth gadw eu hawliau.

Mae ansicrwydd ar bob ochr - mae'r Israeliaid yn teimlo o dan fygythiad eu hunain; a dydy'r Palesteiniaid byth yn gwybod pryd y bydd eu tai'n cael eu dymchwel, neu o ble y bydd y bygythiad nesaf yn dod. Mae sylwedyddion rhyngwladol yn help mawr wrth amddiffyn Palesteiniaid ac mae trefniadau gyfeillio wedi bod yn effeithiol wrth atal aflonyddu.

Mae angen i ni gofio bod y Palesteiniaid yn wydn, yn llawn gobaith o hyd ac mae llawer yn gweithio tuag at wladwriaeth Balesteinaidd seciwlar.

Rydym yn diolch i Helen a John am eu hadroddiad byw.

2011.36 Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol

Mae Pam a Martin Willson wedi anfon adroddiad atom ar Gynulliad y Cyfarfod Blynyddol, a gynhaliwyd yng Nghaergaint rhwng 30 Gorffennaf a 6 Awst, sydd wedi cael ei ddarllen i ni. Rydym yn diolch iddynt am eu hadroddiad.

2011. 37 Cyfarfod Dioddefiadau

Mae Dave Butler wedi adrodd ar y Cyfarfod Dioddefiadau a gynhaliwyd 1 Hydref, ac mae Stevie Krayer wedi darparu adroddiad ysgrifenedig. Roedd y Cyfarfod Dioddefiadau wedi clywed am y Comisiwn Tegwch a sefydlwyd gan Gyngor Islington; efallai y bydd cyrddau yng Nghymru am annog eu cynghorau lleol i gynnal archwiliadau tebyg o'r effaith y bydd y toriadau'n yn ei chael ar gydraddoldeb. Roedd y Swyddog Cyswllt Seneddol hefyd wedi pwysleisio'r effaith y bydd toriadau lles yn ei chael. Derbyniwyd y cofnod (2011. 19) o'n cyfarfod diwethaf gan y Cyfarfod Dioddefiadau. Mae brîff i'w gynhyrchu gan *Friends House* am y toriadau a sut y gallwn ymateb iddynt.

Mae'r Deyrnas Unedig wedi cyflwyno cynnig i'r Cenhedloedd Unedig am gadoediad yn ystod y Gemau Olympaidd. Efallai y bydd cyfeillion am ysgrifennu at y llywodraeth neu eu ASau yn croesawu hyn gan awgrymu bod y DU'n mynd i'r afael â hyn.

2011. 38 Ffin Cyfarfod Ardal Canolbarth Cymru

Rydym wedi derbyn llythyr gan glerc ymddiriedolwyr Cyfarfod Ardal Canolbarth Cymru yn gofyn a oes unrhyw sylwadau ganddynt i'w gwneud ynglŷn â'r newidiadau i ffiniau cyfarfodydd ardal. Rydym yn gobeithio y bydd y trefniadau presennol yn parhau.

2011.39 Y Grŵp Apêl

Mae'r Grŵp Apêl a benodwyd gan gofnod 2011.13 wedi adrodd eu bod yn cynnal yr apêl. Rydym yn dod â'r grŵp i ben gyda'n diolch am eu gwaith.

2011.40 Cytûn a'r Sioe Frenhinol

Mae Catherine James wedi adrodd ar y chwe blynedd mae wedi'u treulio fel aelod o fwrdd Cytûn. Mae wedi mwynhau bod yn rhan o ddatblygiad y corff newydd, ac mae wedi cwrdd â rhai pobl ddiddorol ac ymroddedig iawn, gan gael peth dealltwriaeth o sut mae eglwysi eraill yn gweithio.

Pwysleisiodd Catherine fod neges yr eglwysi, sy'n cynnwys neges y Crynwyr, yn bwysig ym myd Cymru. Oherwydd bod gennym un aelod ar y bwrdd, fel sydd gan yr holl eglwysi eraill, ac oherwydd ein bod yn talu ein dyledion i Cytûn mewn da bryd ac yn llawn, mae gennym lais cryf yn Cytûn, cyn gryfed ag unrhyw un o'r eglwysi eraill. Mae gan Cytûn ddylanwad gyda Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu y gall pryderon sy'n mynd drwy gyfarfodydd ardal i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, ac felly at Fwrdd Cytûn, gael peth effaith ar bolisi'r llywodraeth.

Mewn digwyddiadau cenedlaethol y mae gwaith Cytûn i'w weld, yn arbennig y Sioe Frenhinol, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd. Mae Cytûn hefyd yn gweithio gyda grwpiau eraill, e.e. addysgol. Erbyn hyn ceir tîm caplaniaid, yn wreiddiol yn ei le i'r Sioe Frenhinol yn unig, ond mae bellach yn gweithio mewn digwyddiadau eraill ar faes y sioe. Mae'n amlwg bod y gwaith a wneir gan y tîm yn bwysig gan barhau y tu hwnt i adeg y sioeau a ledled Cymru.

Mae darn o dir wedi'i gynnig i'r Ganolfan Gristnogol, sy'n gweithio ar Faes y Sioe ers blynyddoedd lawer, yn ogystal â'r arian i adeiladu canolfan barhaol ar y maes. Byddai hyn yn ddefnyddiol iawn i'r tîm o gaplaniaid sy'n gweithio yno ar hyn o bryd. Er mwyn cael cytundeb y Sioe Frenhinol i fynd â'r datblygiad hwn rhagddo, mae angen cefnogaeth mewn egwyddor yr holl eglwysi sy'n aelodau o Cytûn. Rydym yn cytuno i gefnogi'r datblygiad hwn mewn egwyddor, er y byddai'n well gennym pe bai'r prosiect yn amlffydd.

Mae gan Cytûn broblemau ynglŷn â'i gyllid, yn yr ystyr ei fod yn ceisio dod o hyd i ffordd decach o gael ei ariannu gan yr aelod-eglwysi, ond mae rhai eglwysi sydd â'u problemau ariannol eu hunain yn ei chael yn anodd cytuno ar y fformiwla newydd. Mae staff Cytûn eisoes yn fach iawn, ond gall rhai o'r aelodau staff hyn golli eu swyddi os na ellir datrys mater y cyllid.

2011.41 Yr Eisteddfod Genedlaethol

Mae Maria Haines wedi anfon adroddiad atom, sydd wedi cael ei ddarllen i ni. Mynegodd Maria nifer o amheuon am effeithiolrwydd ein presenoldeb ym mhabell Cytûn.

Mae Christine Trevett wedi ychwanegu ei sylwadau, bod Cytûn yn gwneud dau beth mewn lle prysur iawn: (i) mae'n cadw'r syniad o addoli yn llygad y cyhoedd drwy gynnal gwasanaeth bob dydd, a (ii) mae'n cadw'r syniad o letygarwch Cristnogol yn llygad y cyhoedd.

Mae gweithio'n eciwmenaidd yn golygu ein bod yn dysgu gan eglwysi eraill a hwythau'n dysgu gennym ninnau.

Mae llawer o ddiddordeb yn y cwestiynau a godir yn adroddiad Maria, ac rydym yn cytuno i drafod y mater hwn yn fanylach yn ein cyfarfod ym mis Hydref y flwyddyn nesaf.

Ein gobaith yw y gallai ein cynrychiolydd ar Fwrdd Cytûn drafod lle i ffwrdd o lwyfan perfformio, er mwyn cynnal y gwasanaeth dyddiol a'r gornel dawel mewn awyrgylch sy'n fwy llonydd. Rydym yn gobeithio y bydd y gofod tawel yn fwy gweladwy ac yn fwy effeithiol y flwyddyn nesaf.

2011.42 Pwyllgor Cynghori Cymru Cymorth Cristnogol

Mynychodd Lynn Moseley gyfarfod y pwyllgor yn Radyr ar 6 Hydref ac mae wedi adrodd yn ôl i ni. Ym mhob cyfarfod gofynnir i'r cynrychiolwyr rannu newyddion am yr hyn maent yn ei wneud ar gyfer Cymorth Cristnogol. Mae rhai cynrychiolwyr yn sôn am gymryd rhan mewn ymgyrchoedd i gasglu arian i Gymorth Cristnogol. Heddwch a chymod yn bennaf yw ein tystiolaeth ni. Gofynnodd Lynn - a ddylem weithio gyda Chymorth Cristnogol? Mae angen i ni gefnogi gwaith Heddwch a Thystiolaeth Gymdeithasol y Crynwyr a byddai'n anodd cefnogi Cymorth Cristnogol yn ariannol. Byddwn yn trafod hyn eto yn ein cyfarfod nesaf.

2011.43 Dathlu Ffordd y Crynwyr yng Nghymru (cofnodion 2011.05 a 2011.30 yn cyfeirio)

Cyfarfu'r Grŵp Prosiectau 18 Hydref, ac mae Catherine James wedi adrodd i ni fod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wedi derbyn grant o £30, 863 gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree i gefnogi ein gwaith i ddatblygu Crynwriaeth drwy'r iaith Gymraeg. Yn unol â'r bwriad, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu DVD a llyfr ysgrifau gan Gyfeillion yng Nghymru. Bydd y ddau brosiect yn darparu defnydd addas i'w lanlwytho i'r wefan.

Mae gwaith ar y DVD ymhell yn ei flaen ac rydym yn gobeithio y bydd y DVD gorffenedig ar gael yn y gwanwyn. Enghreifftiau o'r hyn a gwmpasir yw *Llwybrau'r Ysbryd* a *Byw yr hyn a Gredwn*. O hyd mae angen Crynwyr Cymraeg eu hiaith i ehangu'r safbwyntiau a gynrychiolir.

Bydd y grŵp llyfrau yn gweithio drwy 2012, gan gynnig gweithdai ysgrifennu a chasglu gwaith ysgrifennu gan unigolion. Bydd delwedd afon yn dechrau fel nant yn y mynyddoedd ac yn llifo i lawr i'r môr yn cael ei defnyddio. Bydd yn dangos y siwrnai ysbrydol wrth fyw'r hyn a gredwn.

Disgwylir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2014 ac rydym yn cytuno i newid y cylch gwaith i'r rheini sy'n cymryd rhan yn y prosiect drwy newid penodiadau fel y byddant yn parhau tan ddiwedd 2014.

2011.44 Materion yr ymddiriedolwyr

Mae ein trysorydd, Lynn Moseley, wedi cyflwyno cyllideb i ni ar gyfer 2012. Gofynnwn am gyfraniadau gan gyfarfodydd ardal ar yr yn gyfradd â 2011. Mae'r grant gan Gyfarfod Blynyddol Prydain tuag at gymorth gweinyddol i'r Cyfeillion yng Nghymru wedi'i adnewyddu ar yr un gyfradd â'r llynedd, ond mae'n cael ei adolygu bob blwyddyn; felly, mae'n rhaid i ni gadw digon o arian yn y cyfrif i ddal ati i gyflogi ein swyddog gweinyddol pe na bai'r grant yn cael ei adnewyddu oni ellir gwneud trefniadau eraill. Mae'r grant heb gynyddu i gyd-fynd â chwyddiant; mae ein hymddiriedolwyr wedi cytuno mewn egwyddor y dylid cynnig yr un cynnydd canrannol i'n swyddog gweinyddol ag y byddai'n cael ei gynnig i'r staff yn *Friends House*.

2011. 45 Trefniadau

Mae ein Pwyllgor Trefniadau'n dod â'r awgrymiadau canlynol ar gyfer dyddiadau a chanolfannau yn 2012:

25 Chwefror – Glantwymyn
23 Mehefin – Meifod
27 Hydref – Canolfan Steffan (Llanbedr Pont Steffan)

Bellach ceir arwyddion 'Q' laminedig i helpu i ddangos y ffordd i gyfarfodydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

2011.46 Enwebiadau a Phenodiadau

(i) Mae Maryse Newnham wedi'i henwebu gan y weithdrefn rhwng cyfarfodydd i Bwyllgor Cysylltiadau Cristnogol ac Amlffydd y Crynwyr , ac ers hynny wedi'i phenodi gan y Cyfarfod Dioddefiadau tan 30.4.2012.

(ii) Mae ein Pwyllgor Enwebiadau'n dod â'r enwau canlynol gerbron:

Cyd-glerc (tan ddiwedd 2013) – Christine Trevett
Ymddiriedolwr (tan ddiwedd 2012) – Gethin Evans
Golygydd Calon (tan ddiwedd 2014) - Stevie Krayer
Aelod o'r Pwyllgor Cyhoeddiadau (tan ddiwedd 2014) – Ros Morley
Aelod o'r Pwyllgor Trefniadau (tan ddiwedd 2014) – Christine Lewis (yn amodol ar gydsynio)

A bwrw bod yr enwau hyn yn dderbyniol, penodir y Cyfeillion dan sylw.

(iii) Rydym yn cytuno i benodi Carolyn Sansom i'n Pwyllgor Enwebiadau tan ddiwedd 2014.

(iv) Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dod â'r enw Gethin Evans gerbron fel clerc yr ymddiriedolwyr ar gyfer 2012. A bwrw bod yr enw hwn yn dderbyniol, penodir Gethin.

(v) Enwebiadau y gofynnir amdanynt

Pwyllgor Materion Rhyngwladol Cytûn (tan ddiwedd 2013)
Cynrychiolydd ac eilydd y Cyfarfod Dioddefiadau (o Gyfarfod Blynyddol 2012 i Gyfarfod Blynyddol 2015)
Cynrychiolydd i **Synod Cenedlaethol yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig,** Eglwys Gymunedol Hope, Y Drenewydd, 12 Tachwedd.

Julia Aspden
Clerc